

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Ionawr 5ed, 2017 yn brydlon am 7-00 y.h. yn

### Ystafell Myrddin, **NEUADD GOFFA CHWILOG**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ragfyr 1af, 2016.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
  1. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Arolygon Etholiadol Gwynedd; cyflwyniad gan y Comisiwn Ffiniau.
  2. Pennaeth Cyllid; Praesept 2017/18.
  3. Gwasanaeth Cynllunio, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio; Adwy gyferbyn â cheg lôn Tyddyn Gwyn ar y ffordd rhwng Llanystumdwy a Rhoslan.
  4. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol); Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.
  5. Rheoleiddio; Ymateb: Chwilog a Llanarmon.
6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.
  1. Cais Rhif C16/1335/41/RC – Diddymu Cytundeb 106 fforddiadwy; Nantoer, Pencaenewydd.
  2. Cais Rhif C16/1603/41/AM – Cais amlinellol ar gyfer codi 9 tŷ fforddiadwy ynghyd a darparu mynedfa a lôn stâd; Cae Bodlondeb ger Ael y Bryn, Chwilog.

### **7. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Llanystumdwy

8. Cartrefi Cymunedol Gwynedd; 4 Maes Myrddin, Chwilog.
9. Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; Gwariant Adran 137: y terfyn ar gyfer 2017-18.
10. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r Clerc.
11. Etholiadau Cynghorau Cymunedau a Thref 2017.
12. Un Llais Cymru; cwrs hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth.
13. Gohebiaeth oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru; difrod i loches bws Maes Myrddin, Chwilog.

### **Materion Ariannol**

14. Meinciau'r Cyngor; mae dwy ar y llwybr ger y briffordd o Lanystumdwy am Gricieth, un ger mynedfa Stâd Cae Capel yn Chwilog, un yn y Cae Chwarae yn Llangybi. Trafod pris am wneud y gwaith sydd angen ei wneud.
15. Hysbysfwrdd Llangybi. Trafod pris am brynu a gosod hysbysfwrdd.
16. Archwiliadau Ariannol Allanol; gohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru.
17. Gohebiaeth oddi wrth BDO, yr Archwilwyr Ariannol Allanol.
18. Adroddiad ariannol ar lafar.
19. Anfonebau angen eu talu:
  - a. Criccieth Cleaning Ltd; taliadau am lanhau'r llochesi bysiau, Gorffennaf 5ed a Hydref 6ed; £103- x 2 +TAW = £247.20c, Taliad BACS.

- b. Cyflog chwarter y Clerc wedi'i rannu gyda Chyllid a Thollau EM; cyflog gross £900-, Cyllid a Thollau EM £900- x 20% = £180-, taliad siec; Cyflog net = £720-, taliad siec.
- c. Costau chwarter y Clerc, £150.05c, taliad siec.

It is possible to get a translation, contact the Clerk.